Cynllun gwers Diwrnod Cofio'r Holocost – Beth ddigwyddodd i blant y *Kindertransport?*

Cynllun gwers uwchradd ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocost

HOLOCAUST MEMORIAL DAY TRUST

Learning from genocide - for a better future

Mae'r wers hon yn addas i fyfyrwyr 11-14 oed. Drwy dystiolaeth, arteffactau a chofebion, mae'n cyflwyno hanes y Kindertransport – rhaglen a achubodd 10,000 o blant rhag y Natsïaid. Mae'n addas i'w defnyddio mewn pynciau amrywiol – megis Hanes, Celf a Dylunio, Saesneg, Addysg Grefyddol, ABGI, Dinasyddiaeth.

Amcanion dysgu:

- Bydd myfyrwyr yn dysgu beth oedd y rhaglen *Kindertransport*, ac yn clywed am y plant a achubwyd drwyddi.
- Bydd myfyrwyr yn trafod sut roedd y rhaglen yn gweithio a'r hyn a brofodd y plant.
- Bydd rhai myfyrwyr yn dadansoddi manylion megis sut cafodd y rhaglen ei threfnu a sut groeso gafodd y plant, a barnu beth allwn ni ei ddysgu ohoni.



Gwybodaeth Gefndir:

Mae'r gweithgaredd hwn yn addas i fyfyrwyr heb ddim neu fawr ddim gwybodaeth gefndir am yr Holocost, er ei bod yn bosibl y byddech chi'n dymuno sicrhau bod ganddynt rywfaint o ddealltwriaeth gyd-destunol o beth oedd yr Holocost ymlaen llaw. Er enghraifft, drwy gynnal **gwasanaeth Diwrnod Cofio'r Holocost**.

Bydd angen y canlynol arnoch chi:

- Dangos y PowerPoint sy'n cyd-fynd â'r wers fel bod myfyrwyr yn gallu gweld y sleidiau.
- Y daflen Martha Blend – un i bob myfyriwr neu grŵp bach. Byddwch yn cael eich atgoffa pryd i'w dosbarthu.
- Mae trawsgrifiad wedi'i ddarparu o glip sain hanesyddol y bydd myfyrwyr yn gwrando arno, ac mae'n bosibl y byddech chi'n hoffi'i rannu er mwyn helpu'r myfyrwyr i ddehongli beth mae'r plant yn ei ddweud, neu ar gyfer hygyrchedd.
- Mae'r testun mewn blychau porffor gyda thriongl oren (gweler ar y chwith) yn y cynllun gwers drwyddo draw yno i chi ei ddarllen i'r myfyrwyr i roi mwy o wybodaeth iddyn nhw wrth i'r wers fynd rhagddi.
- Mae cwestiynau trafod yn cynnwys atebion enghreifftiol i'ch helpu i sbarduno'r sgwrs os yw myfyrwyr yn ansicr.

Cynllun gwers

Mae'r cynllun gwers hwn wedi'i greu mewn partneriaeth â'r Harwich Kindertransport Memorial and Learning Trust – **kindertransport-memorial.org**

THE HARWICH KINDERTRANSPORT MEMORIAL & LEARNING TRUST

Cyflwyniad i Ddiwrnod Cofio'r Holocost (dangoswch sleid 1)

Bob blwyddyn ar 27 Ionawr, rydyn ni'n nodi Diwrnod Cofio'r Holocost i gofio:

- y chwe miliwn o bobl Iddewig a gafodd eu herlyn a'u llofruddio'n systematig gan y Natsïaid a'u cydweithredwyr yn ystod yr Holocost.

  pobl eraill a ddioddefodd, gan gynnwys pobl Roma a Sinti, pobl anabl, pobl hoyw, gwrthwynebwyr gwleidyddol a llawer mwy a wynebodd erledigaeth a marwolaeth yn nwylo'r Natsïaid.

- y miliynau o ddynion, menywod a phlant, sydd wedi'u llofruddio mewn hil-laddiadau diweddarach yn Cambodia, Rwanda, Bosnia a Darfur.

Martha Blend a'i llyfr llofnodion

Dangoswch y lluniau o'r llyfr ar sleid 2 a thrafodwch:

- Pa mor hen mae'r myfyrwyr yn meddwl yw'r llyfr?
- Beth maen nhw'n feddwl yw'r ysgrifen?
- Beth yw'r iaith?
- Beth maen nhw'n feddwl yw'r stori tu ôl i'r llyfr?

Heddiw rydyn ni'n dysgu am raglen o'r enw *Kindertransport*, sy'n cyfieithu fel 'Trafnidiaeth plant'. Rhaglen ddyngarol oedd hi, ac roedd ar waith rhwng mis Tachwedd 1938 a mis Medi 1939. Anfonwyd tua 10,000 o blant, y rhan fwyaf ohonyn nhw'n Iddewon, o'u cartrefi a'u teuluoedd yn yr Almaen, Awstria a Tsiecoslofacia i Brydain Fawr i ddianc rhag erledigaeth y Natsïaid.

Dosbarthwch y daflen Martha Blend i'r myfyrwyr ei darllen, naill ai gyda'i gilydd, mewn grwpiau bach, neu'n unigol.

Gweler y cwestiynau trafod isod. Gallwch fynd drwy'r rhain fel grŵp cyfan, neu eu rhoi i grwpiau bach a chael adborth:

Cwestiynau	Atebion Enghreifftiol
Pam oedd yn rhaid i Martha fynd gyda'r Kindertransport?	Pan ymosododd y Natsïaid ar Awstria, roedd pobl Iddewig yn wynebu mwy o drais, gwahaniaethu a pherygl. Roedd ei rhieni eisiau iddi fynd i rywle mwy diogel.
Pam na allai ei rhieni ddod gyda hi?	Rhaglen ar gyfer plant hyd at 17 oed yn unig oedd Kindertransport. Doedd llywodraeth Prydain ddim eisiau llu o oedolion yn dod i'r wlad oherwydd bod problem diweithdra yn Lloegr eisoes.
Sut oedd hi'n teimlo am ddod i Loegr?	Trafodwch y dyfyniad yn benodol. Profodd Martha a'r plant eraill amrywiaeth o ymatebion emosiynol – ofn, tristwch, dideimladrwydd, rhyddhad, gobaith, dicter...
Oedd yn beth da iddi ddod i Loegr?	Yn y pen draw, roedd yn beth da – cafodd Martha ofal da gan deulu maeth caredig a goroesodd yr holocost. Ond wnaeth gweddill ei theulu ddim goroesi a bu'n rhaid iddi fwy ar hyd ei hoes hebddynt.

Glaniodd cwch Martha yn y DU mewn tref yn Essex o'r enw Harwich. Dyma lle'r oedd y rhan fwyaf o blant y rhaglen Kindertransport yn cyrraedd. Roedd teulu Martha wedi llwyddo i drefnu teulu maeth iddi o flaen llaw, felly aeth yn syth o Harwich i Lundain i'w cyfarfod. Nid oedd teulu maeth yn disgwyl am lawer o blant pan oedden nhw'n cyrraedd. Beth ddigwyddodd i'r rheiny?

Cyrraedd Harwich

Ewch drwy'r lluniau yn sleidiau 3-7, gan ddarllen y capsiynau wrth i chi fynd. Rhagor o wybodaeth i'w darllen yn uchel:

Roedd tagiau enw ar ddillad bob un o'r plant a oedd yn cyrraedd Harwich, ac roedden nhw'n cael eu cofrestru wrth gyrraedd. Roedd y rhai hynny oedd â theulu maeth yn aros amdanyn nhw, fel Martha, yn cael eu cludo ymlaen atyn nhw. Aethpwyd â'r rhai heb deulu maeth, ac roedd llawer o'r rheiny, i wersylloedd gwyliau lleol ar hyd yr arfordir, a oedd yn wag gan ei bod yn aeaf. Enw'r mwyaf o'r gwersylloedd hyn oedd Dovercourt Bay.

Cyrhaeddodd y criw cyntaf o 200 o blant o Berlin a Hamburg yn Harwich ar 2 Rhagfyr 1938. Arhosodd y gwersyll ar agor tan ddiwedd Mawrth 1939. Yn ystod y cyfnod hwnnw, cartrefwyd bron i 2,000 o ffoaduriaid ifanc yn y gwersyll, rhai am wythnos neu ddwy, ond bu eraill, a oedd yn anoddach cael rhieni maeth ar eu cyfer, fel bechgyn hŷn, yno am fisoedd.

Doedd y gwersyll gwyliau ddim wedi'i gynllunio ar gyfer defnydd yn ystod y gaeaf, a doedd dim gwres yn y cabanau. Yn nhrydedd wythnos mis Rhagfyr 1938, dioddefodd dwyrain Lloegr aeaf oeraf y ganrif, ac roedd llawer o'r plant a oedd yn aros yn Dovercourt Bay yn cofio'r tymheredd isel a photeli dŵr poeth rhewllyd yn y gwelyau yn y nos.

Yn eu geiriau eu hunain

Yn 1939, anfonodd y BBC dîm i recordio rhaglen ddogfen radio am y plant a oedd yn byw yn y gwersyll. Enw'r rhaglen oedd Children in Flight. Roedd y plant yn cyfweld ei gilydd, felly does dim llawer o leisiau oedolion i'w clywed. Roedd hwn yn fformat eithaf gwahanol ar y pryd. Rydyn ni am wrando ar ychydig o'r rhaglen nawr, i glywed am fywydau'r plant yn eu geiriau eu hunain.

Cwestiynau	Atebion Enghreifftiol
Beth sy'n gwneud y plant yn hapus? Llythyrau gan eu rhieni, anrhegion.	Llythyrau gan eu rhieni, anrhegion.
Beth sy'n gwneud y plant yn drist?	Colli eu rhieni, heb fod yn gwybod pryd y byddan nhw'n eu gweld eto. Y tywydd oer.
Sut maen nhw'n treulio'u hamser?	Mynd i'r traeth, chwarae pêl-droed, dysgu Saesneg, canu, mynd i'r sinema.
Sut mae'r gymuned leol wedi eu croesawu?	Tocynnau sinema am ddim, anrhegion, ymweliadau gan y maer a'r faeres.
Am beth mae'r plant yn gobeithio?	Teulu maeth, ac y bydd eu rhieni'n ymuno â nhw'n fuan.

Rôl llywodraeth Prydain

Nodwch – mae'r gweithgaredd hwn ar lefel ychydig yn uwch, ac fe allwch chi ei anwybyddu os ydych chi'n brin o amser.

Edrychwch ar y tabl ar sleid 9 a thrafodwch beth gafodd ei wneud, a beth na chafodd ei wneud, gan lywodraeth Prydain, a'r hyn a gyflawnwyd gan y gwahanol elusennau a oedd yn gweithio ar y rhaglen.

Cwestiynau trafod:

- Beth wnaeth llywodraeth Prydain a oedd yn dda?
- Ydych chi'n anghytuno ag unrhyw un o'u penderfyniadau?
- Pam/pam ddim? Beth ydych chi'n meddwl fydden nhw wedi gallu'i wneud yn well?
- O'r hyn welwch chi yn y tabl, pam ydych chi'n meddwl bod 10,000 o blant wedi gallu dod? Efallai ei fod yn swnio fel cryn dipyn, ond dyma'r cyfanswm a achubwyd o dair gwlad. Beth rwystrodd y nifer rhag bod yn uwch?

Nodyn Athro

Wnaeth y llywodraeth ddim gosod terfyn ar y nifer, ond wnaethon nhw ddim cynnig arian na chefnogaeth i'r rhaglen chwaith, felly doedd hi ddim yn bosibl derbyn mwy o blant nag oedd modd trefnu a chodi arian ar eu cyfer.

Cofeb Kindertransport

Ar hyn o bryd, mae elusen o'r enw The Harwich Kindertransport Memorial and Learning Trust yn codi arian ar gyfer cofeb i'r *Kindertransport* i'w gosod ar y doc yn Harwich, lle glaniodd y cychod.

Mewn grwpiau bach, trafodwch: Pe byddech chi'n dylunio cofeb, sut fyddai hi'n edrych? Sut ydych chi'n coffáu stori fel hon?

Sleid 10: edrychwch ar ddyluniad y gofeb sy'n cael ei hadeiladu

- Pam ydych chi'n meddwl bod yr artist wedi dylunio'r gofeb fel hyn?
- Beth yw arwyddocâd gwahanol ystumiau'r plant yn y gofeb? (Er enghraifft – mae un o'r ddau blentyn hynaf yn edrych am ymlaen a'r llall yn edrych am yn ôl. Mae'r plant iau yn dangos amrywiaeth o nerfusrwydd, chwilfrydedd ac anymwybod plentynnaidd.)
- Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n bwysig cael cofeb yn Harwich? Pam/pam ddim?

Sleid 11: gwyliwch y clip fideo o Ian Wolter – dylunydd y cerflun

Mae'n bosibl y bydd y fideo yn ateb rhai o'r cwestiynau a oedd gan eich myfyrwyr am y dyluniad, neu mae'n bosibl y bydd yn esgor ar fwy o gwestiynau i'w trafod. Os oes gennych chi amser, fe allech chi:

- Ofyn i'r myfyrwyr beth maen nhw'n ei feddwl o syniad Ian y bydd pobl yn gallu rhyngweithio â'r cerflun: mae rhai pobl yn meddwl bod hyn yn beth da gan ei fod yn dangos sut gallai unrhyw un fod yn ffoadur, ac eraill yn meddwl y gallai hyn droi'r cerflun yn adloniant a bychanu'r rhaglen *Kindertransport*. Beth ydych chi'n ei feddwl? Pam?
- Trafodwch y dyfyniad gan y Rabi John Rayner y mae'n ei rannu
- Edrychwch ar sut mae wedi gweithio gyda ffotograffau hanesyddol o blant go iawn yn cyrraedd gyda'r *Kindertransport*

Ffoaduriaid ifanc heddiw

Edrychwch ar sleidiau 12 a 13. Mae ffoaduriaid ifanc ledled y byd o hyd.

Edrychwch ar y lluniau ar sleid 13. Beth allwn ni ei ddweud am y plant hyn? Er enghraifft:

© Yr Undeb Ewropeaidd 2018
(CC BY-NC-ND 2.0)

- Yn ffodus, rydyn ni'n gwybod eu bod nhw mewn lle mwy diogel bellach, gan eu bod nhw wedi cyrraedd gwersyll ffoaduriaid. Mae ganddyn nhw gysgod, bwyd a dŵr.
- Fodd bynnag, mae'n edrych yn orlawn. Er bod y gwersyll ffoaduriaid yn fwy diogel na'r wlad wnaethon nhw ei gadael, dyw hynny ddim yr un fath â chael eu cartref eu hunain. Mae'r bobl yn y gwersylloedd hyn eisiau symud ymlaen gyda'u bywydau a chreu cartref newydd, mynd i'r ysgol a chael gwaith.
- Mae gan rai o'r plant riant yn y ffotograff, a rhai ddim. Mae rhai yn dangos plant hŷn yn gofalu am blant iau. Mae rhai plant mewn gwersylloedd ffoaduriaid yno gyda'u teuluoedd. Mae rhai ohonyn nhw wedi cael eu gwahanu oddi wrth eu teuluoedd.

Mae'r gwersyll hwn yn cael ei ariannu gan arian cymorth gan yr Undeb Ewropeaidd yn benodol i gefnogi ffoaduriaid Rohingya. Gall pobl gyffredin fel chi a fi helpu hefyd drwy gyfrannu dillad, esgidiau, eitemau ar gyfer y mislif a blancedi i wersylloedd ffoaduriaid. Nawr eich bod chi wedi dysgu am Martha, y *Kindertransport*, a ffoaduriaid ifanc heddiw, trafodwch fel dosbarth beth allwch chi ei wneud nesaf.
Dyma rai awgrymiadau:

- Mae'n bwysig ein bod ni'n dysgu am bobl fel Martha a'r hyn a ddigwyddodd iddyn nhw, fel nad yw hanes yn cael ei ailadrodd. Fel dosbarth, gallech ddod o hyd i ffordd o rannu hanes Martha gyda mwy o bobl – drwy gynnal **gwasanaeth, creu arddangosfa**, neu ddweud wrth eich teuluoedd.

- Gallwch ymrwymo i wneud rhywbeth ar Ddiwrnod Cofio'r Holocost bob blwyddyn – cynnau cannwyll, cael **gwers ysgol** arbennig fel hon heddiw, a dysgu am fwy o bobl sy'n cael eu heffeithio gan hil-laddiad.
- Gallwch hybu ymwybyddiaeth o ffoaduriaid ifanc heddiw drwy ddysgu mwy amdanyn nhw er mwyn creu arddangosfa neu wasanaeth.
- Gallech drefnu gweithgaredd codi arian neu ymgyrch roddion yn eich cymuned ar gyfer dillad a blancedi diangen i'w hanfon i wersyll ffoaduriaid. (Ewch i **helprefugees.org** i gael gwybodaeth am sut i gyfrannu arian neu eitemau).
- Fe ddylen ni gofio bod yn empathetig ac yn garedig wrth bobl eraill bob amser, gan gynnwys pobl sy'n wahanol i ni ein hunain.

Nodyn pwysig i athrawon – ar ôl y wers:

Rhowch wybod i ni pan fyddwch chi a'ch dosbarth wedi gwneud y wers hon. Fe fydden ni wrth ein bodd yn clywed am unrhyw weithgareddau dilynol hefyd. Cysylltwch â'r Swyddog Addysg ar **education@hmd.org.uk**. Mae hyn yn ein helpu i wybod sut mae adnoddau'n cael eu defnyddio mewn ysgolion, ac mae'n bosibl y bydd eich ysgol yn cael ei chynnwys fel astudiaeth achos pan fyddwn yn sôn am y gwahanol weithgareddau sy'n digwydd ledled y DU ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocost.

Mynd â'r dysgu ymhellach:

Mae rhagor o wasanaethau ysgolion uwchradd a chynlluniau gwersi yn **hmd.org.uk/schools**.

Mae rhagor o adnoddau fel hanesion bywyd eraill, ffilmiau a gweithgareddau yn ein **hyb adnoddau**.

@HMD_UK **HMD.UK** **holocaustmemorialdaytrust**

Dysgwch fwy...

Ymddiriedolaeth Diwrnod Cofio'r Holocost: **hmd.org.uk**
Adnoddau ar gyfer addysgwyr a deunyddiau eraill ar gyfer eich gweithgareddau: **hmd.org.uk/resources**

hmd.org.uk
enquiries@hmd.org.uk
020 7785 7029

@hmd_uk
hmd.uk
holocaustmemorialdaytrust

Dysgu o hil-laddiad – er mwyn dyfodol gwell

Martha Blend

Rhoddwyd y llyfr hwn i ferch o Awstria o'r enw Martha yn 1938.

Mae'r llyfr yn gasgliad o negeseuon.

Yn 1939, symudodd Martha i'r DU.

Wnaeth hi ddim gweld y bobl a ysgrifennodd yn y llyfr byth wedyn.

Ym mis Ionawr 1938, dathlodd Martha Blend ei phen-blwydd yn wyth. Rhoddodd ei chefnder lyfr llofnodion iddi fel anrheg pen-blwydd.

Roedd Martha wrth ei bodd, a gofynnodd i'w hanwyliaid ysgrifennu negeseuon personol yn y llyfr. Gafaelodd ei ffrindiau ysgol a'i pherthnasau yn eu hysgrifbinnau a'u pensiliau a llenwi tudalennau'r llyfr gyda'u meddyliau. Roedd y cofnodion yn amrywio – sylwadau ffraeth gan rai a negeseuon mwy difrifol am bwysigrwydd ymddygiad da gan eraill. Ysgrifennodd tad Martha bwt o gyngor arbennig am addysg. Ei neges i'w ferch oedd 'Bydd y sawl sy'n ymdrechu yn ei astudiaethau yn cyflawni eu nodau mewn bywyd.'

Roedd Martha yn falch iawn o'r holl negeseuon. Roedden nhw'n gofnod o amser hapus.

Ychydig fisoedd yn ddiweddarach, ym mis Mawrth, ymosododd y Natsïaid ar Awstria a newidiodd bywyd am byth. Mae Martha'n cofio'r strydoedd yn llawn dynion mewn crysau brown neu ddu gyda bandiau swastica ar eu breichiau. Newidiodd y gyfraith i ddweud bod yn rhaid addysgu plant Iddewig ar wahân, a thynnwyd Martha oddi wrth ei ffrindiau a'r athro a oedd mor annwyl iddi, a'i rhoi mewn dosbarth newydd o griw bychan o blant Iddewig ofnus.

Ym mis Tachwedd 1938, cafwyd noson o drais eithafol wedi'i drefnu yn erbyn pobl Iddewig. Mae Martha'n cofio:

> *'Ym mhob tref yn yr Almaen ac Awstria, llosgwyd synagogau, difrodwyd siopau a oedd yn eiddo i Iddewon a chafodd pethau eu dwyn, a thorrwyd i mewn i gartrefi. Yn waeth byth, arestiwyd miloedd o ddynion Iddewig a'u hanfon i wersylloedd crynhoi fel Buchenwald a Dachau. Roedd fy nhad yn un o'r rhai a arestiwyd. Wna i byth anghofio sŵn esgidiau mawr y Natsïaid yn atseinio ar y grisiau a sŵn dyrnau ar y drws. Anwybyddwyd erfyn fy mam wrth iddo gael ei ddwyn ymaith, dyn di-arf heb unrhyw allu i wrthsefyll milwyr arfog yr SS.'*

Roedd yn amlwg iawn bellach fod Iddewon mewn perygl gwirioneddol gyda'r Natsïaid mewn grym.

Ar ôl lobïo gan grwpiau cymorth i ffoaduriaid, cytunodd llywodraeth Prydain y gallai plant Iddewig deithio i Brydain heb fisa, ar yr amod fod gofynion penodol yn cael eu bodloni. Yr enw ar y rhaglen hon oedd Kindertransport. Roedd rhieni Martha wedi bod yn ymdrechu'n galed, heb lwyddiant, i ddod o hyd i ffordd o ymfudo fel teulu, felly dyma nhw'n cofrestru iddi gael mynd i Loegr ar ei phen ei hun, yn y gobaith y bydden nhw'n gallu ymuno â hi'n ddiweddarach. Caniatawyd i Martha fynd ag un cês dillad bach, ac ynddo roedd hi'n cario'r llyfr llofnodion.

> *'Pan rannodd fy rhieni'r newyddion, fe dorrodd fy nghalon: unig blentyn nad oedd erioed wedi bod oddi cartref, yn teithio i wlad ddieithr at bobl ddieithr a oedd yn siarad iaith wahanol! Roedd yn ymddangos y tu hwnt i allu plentyn naw oed i ymdopi ag ef. Ond yn raddol, wrth i'r tarfu gan y Natsïaid waethygu, fe wnes i sylweddoli nad oedd gen i ddewis ond mynd.'*

Er bod y Kindertransport wedi achub bywydau'r plant, fe wnaeth eu gwahanu oddi wrth y bobl a oedd fwyaf annwyl iddyn nhw hefyd, eu rhieni. Erbyn diwedd y rhyfel, roedd llawer ohonyn nhw'n amddifad, oherwydd bod eu rhieni wedi cael eu llofruddio yn yr Holocost. Dywedodd Martha:

> *'Fe wnes i ddod i Loegr yn blentyn naw oed, ond pan ddaeth y rhyfel i ben, roeddwn i'n bymtheg. Doeddwn i ddim wedi clywed gair gan fy rhieni am bum mlynedd ac roeddwn i'n arswydo am ddarganfod beth oedd wedi digwydd iddyn nhw. Ar ôl clywed sibrydion am dynged yr Iddewon yn Ewrop, doeddwn i ddim yn teimlo'n optimistaidd. Yn fuan, fe wnes i ddysgu'r ffaith drist bod fy rhieni, ynghyd â neiniau, modrybedd, ewythrod, cefndryd a chyfnitherod i gyd wedi rhannu tynged y miliynau o Iddewon a lofruddiwyd yng ngwersylloedd crynhoi a siambrau nwy Hitler.*
>
> *Doedd dim byd i mi fynd yn ôl ato yn Awstria, felly dyma ymgartrefu yn y wlad hon. Rydw i wedi byw yn Lloegr byth ers hynny ac yn ddinesydd Prydeinig brodoredig. Ar ôl i mi fynd i'r ysgol a'r brifysgol, treuliais 25 mlynedd fel athrawes Saesneg, fy ail iaith. Ers i mi ymddeol, rwyf wedi ysgrifennu llyfr am fy mhrofiadau, o'r enw 'A Child Alone'. Rydw i wedi adrodd fy stori wrth ddisgyblion mewn sawl ysgol hefyd: nid dim ond er mwyn gwneud, ond i ddangos sut mae propaganda casineb yn gallu arwain at ganlyniadau brawychus fel llofruddiaeth ac anhrefn. Mae'n wers na ddylen ni feiddio ei hanghofio heddiw.'*

Mae'r llyfr llofnodion wedi dod yn beth pwysig iawn nawr, gan mai dyma'r unig damaid o lawysgrifen ei thad.

Ni chafodd Martha wybod erioed beth ddigwyddodd i lawer o'i ffrindiau ysgol a oedd wedi llenwi tudalennau ei llyfr gyda negeseuon o ddoethineb, llawenydd a gobaith. Roedd gafael ynddo yn ei llaw yn ei chysylltu â'r byd y bu'n rhaid iddi droi cefn arno.

Defnyddiodd Martha ei llyfr llofnodion i rannu ei hanes gyda phobl ifanc. Wrth iddi ddarllen eu negeseuon i bobl, roedd hi'n gobeithio y bydden nhw'n deall mwy am yr hyn a gollwyd pan oedd y Natsïaid mewn grym. Mae'r negeseuon, gan berthnasau a ffrindiau un ferch fach wyth oed, yn cynrychioli'r byd a ddinistriwyd gan bolisïau casineb y Natsïaid.

Bu farw Martha yn 2013. Mae hanes Martha yn cael ei adrodd yn llawn yn ei llyfr – A Child Alone.

Trawsgrifiad Children in Flight

Children in Flight, 1939, BBC

Kate: Kate ydw i. Dw i'n 16 oed a dw i'n dod o Hamburg. Fe wnes i ddod yma ym mis Rhagfyr gyda 200 o blant, y rhan fwyaf ohonyn nhw'n iau na fi. Erbyn hyn, dwi'n aros mewn gwersyll ger Harwich gyda 600 o blant sydd wedi gorfod gadael yr Almaen. Rydyn ni i gyd yn aros i ddod o hyd i gartrefi yn Lloegr ble gallwn ni aros nes bydd ein rhieni'n gadael yr Almaen.

Luther: Mae cloch yn canu am wyth o'r gloch, ac mae'n rhaid i ni godi. Mae rhai bechgyn yn codi'n gynt i redeg i'r môr, sydd wrth ymyl y gwersyll. Am 8:30, rydyn ni i gyd yn cael blas ar frecwast traddodiadol. I ddechrau, doedden ni ddim yn bwyta uwd, ond rydyn ni'n ei hoffi erbyn hyn. Pan fyddwn ni'n gorffen brecwast, rydyn ni'n cael llythyrau neu gardiau gan ein rhieni, sy'n ein gwneud ni i gyd yn hapus iawn. Wedyn rydyn ni'n glanhau ac yn tacluso ein hystafelloedd. Yna mae dwyawr awr o wersi yn Saesneg. Ar ôl te, rydyn ni'n cael mynd i'r môr, sy'n wych. Neu rydyn ni'n chwarae gemau Saesneg neu bêl-droed. Gyda'r nos, rydyn ni'n dysgu llwyth o ganeuon Saesneg nes ein bod ni'n mynd i'r gwely.

Cyfwelydd: Sut oedd eich taith?

Brigitte: O, fe gawson ni daith dda iawn, heblaw bod rhaid i ni ddod ar ein pen ein hunain. Doedd neb yn cael dod gyda ni, ac roedd yn rhaid i fi gario fy nghês fy hun o hyd, a hwnnw'n drwm iawn. Roedd fy mam yn drist iawn am nad oedd hi'n cael dod ar y platfform i ffarwelio â fi. Mae'n braf bod mewn gwersyll gyda'r plant eraill i gyd. Dydw i ddim yn teimlo mor unig.

Kate: Rydyn ni mor falch i fod yn Lloegr, yn tydyn ni, Marian?

Marian: Ydyn, ond mae'n ofnadwy o oer yma yn y gwersyll, yn enwedig yn y nos.

Kate: Dw i'n credu dy fod di mor hapus â fi i fod yn Lloegr, Marian, ond y peth sy'n fy ngwneud i fwyaf trist yw sut i gael fy rhieni yma.

Marian: Rwyt ti'n iawn. Dyw hi ddim yn bosibl i'n rhieni ymfudo, a dydyn ni ddim yn gwybod pryd fyddwn ni'n eu gweld nhw eto.

Kate: Bob dydd, rydyn ni'n cael llawer o anrhegion. Bocsys o afalau ac orennau, er enghraifft, neu deganau i'r rhai bach. Rydyn ni'n ddiolchgar i'r Saeson ac yn diolch yn fawr iawn iddyn nhw i gyd.

Marian: Rwy'n gobeithio cael mynd at deulu yn Lloegr cyn bo hir, er mwyn gallu byw a dechrau dysgu, nes bydd fy rhieni'n ymfudo a 'mod i'n cael mynd atyn nhw.

Luther: Weithiau, rydyn ni'n mynd i sinema yn Dovercourt. Rydyn ni wedi gweld ffilm dda, Snow White and the Seven Dwarfs. Roedden ni i gyd wrth ein boddau.

Irene: Mae Maeres Dovercourt a Maer Harwich wedi ymweld â'r gwersyll gwyliau. Rydyn ni'n falch iawn o hynny. Mae sawl un o'n ffrindiau ni eisoes wedi gadael y gwersyll. Mae teuluoedd neis iawn o Loegr wedi cynnig cartref iddyn nhw.

Oedolyn: Sprechst du English? Ja? (Wyt ti'n siarad Saesneg? Wyt ti?)

Plentyn: Chwech

Oedolyn: Chwech, ie, dyna ti, rwyt ti'n chwech oed.

(Plentyn yn siarad Almaeneg)

Oedolyn: Wyt ti'n gallu cyfrif yn Saesneg? Ie, rwyt ti'n cyfrif 1...

Plentyn: Gallaf. 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8...

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG43960 Llywodraeth Cymru ISBN digidol 978-1-80391-340-7